**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ-PO-369-2023

Llyr Gruffydd, Aelod o'r Senedd
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

28 Tachwedd 2023

Annwyl Llyr Gruffydd,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Hydref ynghylch ein safbwynt ar geblau tanddaearol.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU yn cadw cyfrifoldeb llawn am rwydweithiau ynni a phenderfyniadau cysylltiedig, ac felly nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw tystiolaeth sylweddol ar y materion hyn.

O ran ymchwil ar osod ceblau tanddaearol, cyfarfu fy swyddogion â'r tîm uwch o ATP Cable Ploughing a chael trosolwg o'r fethodoleg, y buddion y gall ei gynnig a'i brif gyfyngiadau. Ein dealltwriaeth bresennol yw bod y dull hwn o osod ceblau yn cael ei ddefnyddio'n eang ar gyfer y seilwaith dosbarthu ac y gall gynnig buddion o ran defnydd tir a llai o darfu. Rwy'n deall bod y dechneg o osod ceblau tanddaearol yn cael ei defnyddio'n rhyngwladol ac mae fy swyddogion wedi nodi ei ddefnydd ar gyfer rhwydweithiau trosglwyddo cerrynt uniongyrchol (DC) hyd at 220 kv. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth o'i ddefnydd ar gyfer seilwaith trawsyrru cerrynt tonnog (AC) fel a defnyddir yn y DU. Mae'r Grid Cenedlaethol wedi cyhoeddi trosolwg defnyddiol o'r problemau wrth osod y ceblau hyn o dan y ddaear: Tanddaearu llinellau trosglwyddo trydan foltedd uchel.

Rwy'n deall bod y Grid Cenedlaethol wedi comisiynu y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg i ddatblygu astudiaeth newydd ar gost trtrydan. Mae NGET wedi hysbysu fy swyddogion y bydd yr adroddiad yn debyg i adroddiad 2012, sydd i'w weld yma. Rwy'n deall y caiff ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change